

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe
ABERTAWA SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.org

Dalier Sylw!

Cyhoeddir y Pedair Tudalen
Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r
Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wnele Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys y Pedair Tudalen.

50 mlynedd o weinidogaeth

Hanner can mlynedd yn ôl ym Medi 1966 ordeiniwyd y Parchg Hywel Wyn Richards yn weinidog yn y Capel Coffa Llanelltud. Ei ddymuniad oedd bod cynrychiolaeth o'r Tabernacl Pen-y-bont ar Ogwr, ei ofalaeth ddiwethaf, yn nodi'r garreg filltir arbennig hon trwy fod yn rhan o'r gynulleidfa yn y Capel Coffa ar fore Sul Medi'r 11eg 2016. Cytunwyd yn unfrydol â'r syniad a'r bore Sul hwnnw roedd y capel dan ei sang gan fod teulu a ffrindiau, gan gynnwys mwyr na deugain o'r Tabernacl Pen-y-bont, wedi teithio o bell ac agos i nodi'r achlysur arbennig.

Cyfarchion

Llywyddwyd yr oedfa'n ddeheuig gan Nia Rowlands, darllenwyd gan y Parchg Dyfrig Rees a gweddïwyd gan y Parchg Robin Samuel, olynnydd a rhagflaenydd Hywel yn y Tabernacl Pen-y-bont. Estynnwyd cyfarchion i'r Parchg Hywel Richards ar ran Gofalaeth y Ganllwyd gan Tomos Iwan Edwards a ddarllenodd englynion gan ei daid Tomos Edwards (a thaid Lowri Phillip) oedd yn enau i groeso'r ofalaeth i'w gweinidog newydd yn 1966. Darllenwyd llythyr ar ran Gofalaeth Bwlch y Groes ac estynnwyd cyfarchion ar ran Gofalaeth Dolgellau a Dinas Mawddwy gan Tecwyn Owen, ac ar ran Gofalaeth Pen-y-bont ar Ogwr gan Gwerfyl Thomas. Yn ogystal darllenwyd llythyron cyfarch oddi wrth y Parchg Gareth Morgan Jones a W J Edwards.

Anrhegu

Cyflwynwyd darlun o bedwar capel ei ofalaeth gyntaf ynghyd ag englynion gan Tecwyn Owen i Hywel a chyflwynwyd



blodau i Dilys gan Llinos Atherton, un o'r cyntaf i Hywel fedyddio ac un a dderbyniodd hyfforddiant gan Dilys wrth baratoi ar gyfer gwaith nyrs ardal. Darllenodd Catrin Wyn Leader, merch hynaf Hywel a Dilys adnodau o Mathew 25 cyn i'w thad sôn am y dylanwadau fu arno gan dri o'i ragflaenwyr yn y Tabernacl Dolgellau wrth geisio cyflawni gwaith y weinidogaeth gyda phwyslais ar rôl gymdeithasol, fugeiliol a phroffwydol y gweinidog a'r eglwys. Roedd yn wasanaeth cofiadwy yn nodi achlysur arbennig iawn.

Gwerfyl Thomas

Englynion cyfarch

Dod daith bell o Lanelli - i Feirion

Yn fore i weini;
Rydd yn awr yn rhodd i ni
Harnais rhag cyfeiliorni.

Tomos Edwards,
Dolmelynlllyn, Y Ganllwyd Hydref 1966

Daeth i rannu bendithion ei afiaith
a'i ifanc obeithion
i ddifyr fro'r ddwy afon
a rhoi'i hoen ar allor Iôn.

A'r Gader yn graig ydoedd – yn orchudd
i warchod ei werthoedd
a rhyddid o hen ffriddoedd
y fro aur yn fore oedd.

Angerddol fu'i dystiolaeth – a rhannodd
o'i riniol arwriaeth
yn ei fyw, a drodd yn faeth
o'i euraidd ddewr anturiaeth.

Tecwyn Owen
Dolgellau Medi 2016

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

DYMA FFYDD

**Galwad i artistiaid gweledol
eglwysi'r Annibynwyr Cymraeg**

Mae'r Undeb, trwy'r
Ysgrifennydd
Cyffredinol, yn
awyddus i drafod a
threfnu arddangosfa
gelf weledol ar y
thema o *Dyma Ffydd*

Efallai eich bod wedi
creu gwaith sydd ...
... yn ddatganiad o
ffydd a gobaith
... yn archwilio ffydd
a gobaith
... yn canolbwyntio'n
benodol ar
agweddau o ffydd



**Os hoffech fod â rhan yn y
drafodaeth ac os oes gwaith gweledol
gennych i'w gynnig ar y thema,
hoffem glywed gennych ar frys!**



DERBYN PYMTHEG AELOD NEWYDD MEWN UN BORE!

Ar fore heulog o Haf Bach Mihangel cafodd y Parchg Ken Williams y fraint a'r plaser o dderbyn pymtheg o aelodau newydd yn ei ofalaeth ar gyrion Caerfyrddin.

Yn gyntaf, mewn oedfa gymun yng nghapel bach Bwlch-y-corn, cafodd dau berson ifanc eu derbyn yn gyflawn aelodau o eglwys Iesu Grist. Mae gan Ffion Mason a Daniel Peacock wreiddiau dwfn yn yr eglwys. Mae Helen, mam Ffion, yn un o'r organyddion a bu hen-dad-cu Dan, SS Bowen, yn ddiagon yno.

Cynulleidfa fawr

Yn syth ar ôl yr oedfa ym Mwlch-y-corn, fe deithiodd Mr Williams ddwy filltir i lawr y ffordd i Beniel i dderbyn tri-ar-ddeg o bobl yn aelodau, ym mhresenoldeb cynulleidfa fawr. Roedd unarddeg yn bobl

ifanc, sef Lois Davies, Hana Evans, Carra James, Marged a Cynyr Smith, Rhys Tobias, Aled Baucher, Dafydd Evans, a'r tair chwaer – Catrin, Heledd a Mared Griffiths. Derbyniwyd y Parchg Tom Evans a'i wraig Marilyn, sydd newydd symud i'r pentref, yn aelodau hefyd.

Duw yn dda

“Roedd yn fore bythgofiadwy,” meddai'r Parchg Ken Williams. “A dweud y gwir, roeddwn o dan deimlad o feddwl bod Duw mor dda i ni. Ffrwyth yr Ysgol Sul oedd y rhai iau, ac mae'n llawenydd pur iddyn nhw benderfynu o'u gwirfodd eu bod nhw am ddod yn aelodau gyflawn o eglwys Iesu Grist,” meddai. “Beth sy'n hyfryd ym Mwlch-y-corn a Pheniel yw bod trawstoriad o bobl o bob oedran yn y ddwy eglwys. Mae hynny'n argoeli'n dda i'r dyfodol.”

Cyngor Cynhyrchiol

Cafwyd deuddydd cynhyrchiol a bywiog yng Nghyngor yr Hydref yng Ngregynnog eleni gyda nifer o syniadau a phrosiectau cyffrous yn cael eu hawgrymu. Dyma grynodeb o'r hyn gododd yn nhrafodaethau dwy o'r adrannau.

ADRAN TYSTIOLAETH



Yn ystod trafodaethau'r Adran Tystiolaeth dan gadeiryddiaeth Mr Alun Puw, y prif bwyntiau oedd y canlynol:

- **Rhaglen Datblygu:** Cafwyd adroddiad o'r Panel Datblygu a gyfarfu ar Fedi 21ain, 2016. Yno y croesawyd Mr Emyr Phillips i'r cyfarfod cyntaf fel Cadeirydd y Panel Dyfarnu Arian i brosiectau'r Rhaglen Datblygu. Diolchwyd iddo am ymgymryd â'r swydd, a hefyd i Mr Glyn Williams a wnaeth y gwaith am nifer o flynyddoedd. Braf oedd gallu cofnodi i nifer o brosiectau gael cymhorthdal o'r cynllun hwn. Gall unrhyw eglwys wneud cais am arian hyd at £1000 ond dylid brysio oherwydd mae'r amser ymgaisio yn prysur ddirwyn i ben.
- **Cynllun Datblygu Medrau:** Diolchwyd yn arbennig i Aelodau Ebeneser, Caerdydd am eu haelioni a'u brwdfrydedd gyda'r cynllun hwn. Mae 3 wedi dilyn y cynllun erbyn hyn. Mr Gwion Dafydd oedd y cyntaf a hyfrydwch yw gwybod ei fod o bellach yn Gynorthwydd Gweinidogaethol yn Eglwys Bro Aled. Dilynodd dwy ferch y cynllun y flwyddyn ddiwethaf, sef Beth Roberts a Miriam Powell Davies
- **Rhwydwaith Ieuencid:** Mae Rhodri Darcy (Swyddog Hyrwyddo a Chyfathrebu'r Undeb) ar hyn o bryd yn cynllunio cyfres o fideos gyda chymorth Cynan Llwyd a Miriam Powell Davies ar gyfer ieuencid. Y bwriad ydy cyflwyno fideos byr yn anelu at y 15 oed.
- **Cyhoeddusrwydd:** Clywsom am y datblygiadau i Wefan yr Undeb,
- 'Y Tyst' a 'Dyma'r Undeb'. Byddai golygyddion 'Y Tyst' yn falch o dderbyn lluniau a brawddeg neu ddwy o weithgaredd yr Eglwys. Cofied pawb i droi i wefan yr Undeb ar www.annibynwyr.cymru. Mae Rhodri Darcy hefyd yn gweithio ar gynllunio templed syml y gall eglwysi ei ddefnyddio i greu gwefan eu hunain.
- Cafwyd trafodaeth frwd ar anghenion eglwysi a phenderfynwyd annog Pwyllgorau Bugeiliol y Cyfundebau i geisio gwybodaeth beth ydi gofynion datblygu'r eglwysi o fewn eu cyfundebau.
- Fel ymateb i sylw'r Parchg Dr Geraint Tudur yn ei sylwadau dechreuol i'r Cyngor, penderfynwyd ein bod fel Adran yn mabwysiadu prosiect o gynorthwyo yn y gwaith o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg.

Carwyn Siddall



Cyngor Cynhyrchiol

ADRAN DINASYDDIAETH GRISTNOGOL

Kairos Palesteina

Croeswyd Jane Harries o Gymdeithas y Cyfeillion i'r Adran i sôn am y ddogfen 'Kairos Palesteina - Amser Gweithredu' sef ymateb Cristnogion ym Mhrydain i'r sefyllfa yn Israel / Palesteina.



Mae'r ddogfen yn galw am weithredu i sicrhau fod pobl yn dewis

- o blaid cyfiawnder yn erbyn gorthrwm a hawliau dynol a gwleidyddol yn erbyn dadfeddiannu
- o blaid rhyddid yn erbyn meddiannu sy'n gwadu rhyddid
- o blaid urddas cyfartal pobl yn erbyn hiliaeth a chamwahaniaethu
- o blaid gwrthsefyll di-drais yn erbyn y trais sy'n cynnal cylch dieflig a gwrthgyhuddo

Bydd yr Adran yn galw sylw at y ddogfen ac yn cynnig arweiniad i'r eglwysi ar sut i weithredu'n gadarnhaol.

Cymry ac Ewrop

Croesawyd Dr Noel Davies a roddodd amlinelliaid o'r datblygiadau yn dilyn y penderfyniad ar ganlyniad y refferendwm yn Undeb Llanuwchllyn. Cafwyd penderfyniad tebyg gan y Bedyddwyr a'r Presbyteriaid, Ffurfiwyd Gweithgor a chytunwyd ar 10 pwynt sylfaenol a chwbl hanfodol i ni fel Cristnogion. Derbyniwyd gwahoddiad i gyflwyno tystiolaeth i Bwyllgor Materion

Cymreig a Chydbwyllgor Hawliau Dynol Senedd Westminster. Ymatebwyd gan Dr Noel Davis a Gethin Rhys (CYTUN).

Ffoaduriaid ac Ymateb yr Eglwys

Trafodwyd y posibilrwydd o greu linc gydag eglwysi mewn gwahanol ardaloedd er mwyn sicrhau fod ffoaduriaid sy'n cael eu lleoli yn y dinasoedd a'r trefi yn cael cyfle i ddod i adnabod Cymru yn well ac i brofi croeso rhai o'n cymunedau gwledig. Cytunwyd gofyn am gefnogaeth y Cyngor i apêl Cymorth Cristnogol ar y ffordd i ymateb i ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Galwyd sylw at daith gerdded 'Ffoi i'r Aifft' o Fethlehem, Sir Gâr i bentref bach Yr Aifft yn Sir Ddinbych. Bydd yn cychwyn ar Ragfyr 4ydd .

Newid Hinsawdd

Cytunwyd danfon at y Llywodraeth i bwysio arni i gadarnhau cytundeb Paris ar newid hinsawdd. Nodwyd hefyd fod mis Hydref yn gyfnod o lobio fel rhan o ymgyrch Stop Climate Chaos Cymru.

Jeff Williams

John Pugh, Llanasa

Bu farw John Toni Pugh yn dawel yn ei gartref sef Fferm Plas Celston, Llanasa yn 71 oed. Rydym fel eglwys Ebeneser, Trelawnyd yn cydymdeimlo'n fawr gyda'i briod Caryl a hefyd Bethan ac Osian.

Un o Sir Fflint oedd John ac roedd yn Gymro pybyr er iddo gael ei eni yng Nghaer pan oedd ei rieni yn ffermio yn Sealand. Wrth deithio i weld y teulu yn eu cartref cefais dipyn o antur. Bois bach, mi fuasai'r gŵr hwnnw a yrrodd ei gar i fyny'r Wyddfa ychydig yn ôl, wrth ei fodd. Ffordd garegog a pheryglus oedd yn arwain at y cartref, ond drwy yrru'n bwylllog cyrhaeddais y ffermdy braf. Gwn nawr pam fod John yn cyrraedd yr oedfa foreol pan oeddem yn canu'r emyn cyntaf neu hyd yn oed yng nghanol y darlleniad! Person hamddenol a chytbwys ydoedd a bydd bwch mawr ar ei ôl, yn y capel hwn, y Sir ac yn enwedig ar yr aelwyd. Priododd John a Caryl yn y flwyddyn 1980 yn Nantglyn, ac fe ddaeth y fro honno yn Sir Ddinbych yn agos iawn at ei galon.

Plas Celston

Wrth gerdded i ystafell fyw Plas Celston y peth cyntaf a welwch yw darn o bren mawr ar y mur gyda'r geiriau cywrair hyn arno, "Cymraeg yw iaith yn nefoedd". Credai John hynny yn siŵr. Roedd ei rieni yn Gymry i'r carn. Deuai ei fam yn wreiddiol o Sir Fflint a'i dad o Lansilin. Symudasant o Sealand i Fagillt pan oedd John yn 8 oed. Wedi treulio ychydig amser mewn uned Gymraeg mewn ysgol yn Sealand aeth i uned debyg yn Nhreffynnon a ddatblygodd maes o law yn Ysgol Gwenffrwd. Ymlaen wedyn i Ysgol Uwchradd Glan Clwyd fel

un o'r disgyblion cyntaf oll. Cefn gwlad a'i thraddodiadau a byd ffermio oedd ei ddilêit mawr. Roedd yn hoff iawn o bobl yn enwedig pobl oedd yn cadw diwylliant a thraddodiadau Cymru yn fyw. Amaethwr ydoedd a chefnogwr brwd i'r gwartheg duon Cymreig.

Tynnu Rhaff

Fe symbylodd nifer o hogiau ifanc a chryfion ardal Bagillt i fod yn rhan o dîm Tynnu Rhaff - Tug of War. Crwydrodd ef a'i ffrindiau i lawer rhan o Gymru a Lloegr i gystadlu ac i gefnogi llawer i achos da. Cofiaf sgwrs ddifyr gyda John wedi'r oedfa un bore yma yn Ebeneser . Holodd fi, "rwy'ti wedi dod o "hwntw land" yn dwyt? O ble yn union?" Atebais innau fy mod yn dod o Gapel Iwan, Sir Gaerfyrddin. "Nabod y lle yn iawn ychan", meddai, "wedi cystadlu yn erbyn tîm tynnu rhaff y pentre hwnnw ydsi."

Cartref Ysbrydol

Ei gartref ysbrydol oedd Capel Annibynwyr Bagillt. Ond gwaetha'r modd bu rhaid cau yr achos hwnnw a daeth i addoli yn Ebeneser. Cyflwynodd yr hysbysfwrdd o gapel ei deulu i ni yma yn Ebeneser a byddwn yn sic o edrych ar ei ôl er cof amdano. Roedd yn eithriadol o ffyddlon i achos Iesu Grist a cheisiai ei orau i ddod atom er ei anhwylderau. Ymladdodd John hyd eithaf ei allu i ddod atom ac roeddem ni fel cyd-aelodau yn falch ei fod yn gwneud y fath ymdrech. Un stori ddaw i'r cof amdano yw hon. Roeddem yn cynnal gwasanaeth hwyrol rai blynyddoedd yn ôl ac roeddwn i yn arwain yr oedfa yng nghanol mis Ionawr. Roedd y goleuadau trydan yn llewyrchu drwy y

capel ond yn sydyn daeth toriad yn y cyflenwad. Aeth hi yn dywyll fel bol buwch. Sefais yn y pulpud gan ofyn y cwestiwn, "Beth wnawn ni rwan?" A dyma'r llais o'r cefn yn ateb "Wel cario ymlaen ynte, Arwel". Chwarddodd pawb yn llawen, yr oedd John wedi ysgafnhau'r sefyllfa.

Craig

Wyddoch chi fod John yn y flwyddyn 2005 wedi ysgrifennu nodiadau ynghylch trefniadau ei gynhebrwng. Ond mi gafodd un ar ddeg blwyddyn arall, oherwydd ef ei hun ond yn fwy na dim oherwydd chi Caryl, Osian, Bethan. Chi fel teulu oedd y graig oedd yn symbylu John i ymladd yr afiechyd a ddaeth i'w ran. Heddwch a thangnefedd i chi fel teulu a choffa da amdano. Dyma englyn er cof amdano a gyfansoddwyd gan Norman Closs Parry.

John Pugh

Gwladwr a ffermwr bro y ffin – yn "frod"
A hen frwydr ei gwerin
Dewr oedd drwy y blynyddoedd blin
Ei rawd, ŵr anghyffredin.

Arwel Roberts

BETHEL, SGETI, ABERTAW

Bydded yn hysbys fod oedfa'r hwyr am 5 o'r gloch ar y trydydd Sul o bob mis yn oedfa llai ffurfiol yn cynnwys bwyta cyri.

Croeso i bawb!

Barn Annibynnol

Mwy na Geiriau

Yn fy mynd gwaith i Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol yw "Mwy na Geiriau." Ni ddylai bod derbyn gwasanaeth drwy ein hiaith ein hunain yn rhywbeth y dylem fod yn gorfod gofyn amdano. Mae derbyn gwasanaeth i ni Gymry Cymraeg drwy gyfrwng ein hiaith ein hunain yn golygu, gobeithio, ein bod yn cael y gwasanaethau gorau posib oherwydd y gallwn fynegi ein dymuniadau a'n dyheadau mewn ffordd naturiol sy'n gyffyrddus i ni.

Mae gan y Strategaeth yma negeseuon cryf i arweinyddion ac i bawb ohonom sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth. Mae'r strategaeth yn cyfeirio at bwysigrwydd y pethau bach ymarferol, y cyfarchiad



cyntaf, yr Helo a Shwmae, cydnabyddiaeth i iaith a diwylliant, bod y Cymro, Y Daily Mail, Cristion (a'r Tyst wrth gwrs) ar gael yn ein gwasanaethau. Tristwch ein sefyllfa yw bod rhaid cael y fath yma o Strategaeth i sicrhau gwasanaethau yn ein hiaith ein hunain yn ein gwlad ein hunain!

Words of life

Yn nrôr fy nesg mae llyfr, llyfr sydd wedi symud swyddfa gyda mi sawl gwaith, llyfr fy nhad, yr un a fyddai yn ei boced wrth ymweld, llyfr a dderbyniodd ef pan yr Ordeiniwyd yn Weinidog i Iesu Grist yng nghylch Abermaw a Salem, Cefn Cymerau (ie y Salem!) Yn rhyfedd iawn llyfr Saesneg ydyw, "Words of Life". Geiriau sy'n llawer mwy na geiriau! Cyfrol fechan ydi hi o ddarlleniadau Beiblaidd, gweddiâu a moliant a olygwyd gan y Parchg W. J. Jones Llundain a gyhoeddwyd yn Llundain gan "Foyle's Welsh Co. Ltd Charing Cross Road yn 1940. Mae'r gyfrol wedi ei byseddu sawl gwaith, mewn amrywiol sefyllfaoedd, hapus, trist, cythryblus, bregus, sefyllfaoedd lle mae'n geiriau ni mor annigonol.

Y Gair

Heddiw mae'r Ap Beibl ar fy ffôn a derbynaf yn ddiolchgar bob dydd adnod o Beibl.net. Llawer mwy na gair yw y Gair a ddaeth yn gnawd a phreswyllo yn ein plith, "yr oedd y gair gyda Duw, a Duw oedd y Gair. Yr oedd ef yn y dechreuad gyda Duw. Daeth popeth i fod trwyddo Ef.

Mae'r Gair gyda ni bob amser nid oherwydd unrhyw Strategaeth neu hyd yn oed Deddf, ond oherwydd i gariad Duw atom sicrhau ffordd yn syth ato Ef drwy Iesu Grist. Mae'n debyg mai hoff dôn fy hen daid Dafydd Vaughan, Lluest y Dduallt, Penfforddlas oedd Stephanos a'r geiriau

Iesu, clywaf sŵn dy eiriau
Draw o fin y lli ;
Cerdant ataf o'r pellterau –
"Canlyn Fi"

"Mwy na Geiriau"?

Llawer mwy y Gair a Ddaeth yn gnawd.

Elen Vaughan

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynnwyr na'r tim golygyddol.)

Canmlwyddiant Tabernacl Porthcawl

Gwawriodd ddydd Sul y 18fed o Fedi yn fore hyfryd ym Mhorthcawl ac roedd y criw gweithgar, sydd wedi bod yn trefnu ein dathliadau Can Mlwyddiant yr eglwys, yn y capel yn gynnar i sicrhau fod croeso twymgalon yno ar gyfer pawb ddaeth i'n cefnogi.

Oedfa Foreol

Hyfryd oedd cael croesawu'r Parchg Euros Miles, gweinidog Capel Noddfa Rhuamah Porthcawl a'r aelodau, y Parchg Dyfrig Rees gweinidog Tabernacl Pen-y-bont a'r aelodau, hefyd y Parchg Alwyn Evans a ffrindiau o eglwysi eraill. Pobl ifanc yr eglwys, dan arweiniad ein gweinidog y Parchg Rosan Saunders, gymerodd at y rhannau arweiniol, a gwneud hynny gyda'r graen arferol. Cafwyd hefyd gyflwyniad pypedau a bwysleisiodd mai cariad, a chariad Duw, sydd ei angen ar ein byd.

Y Gair a'r Cymun

Ein pregethwr gwadd oedd y Parchg Ddr Geraint Tudur, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynnwyr. Cawsom ganddo bregeth rymus ar groeshoeliad Crist ac yn benodol ar ddatganiad olaf Iesu ar y groes - "Gorffennwyd". Dr Geraint Tudur hefyd weinyddodd y Cymundeb gyda'r pedwar gweinidog oedd yn bresennol, yn

rhannu'r elfennau. Pa bryd fuoch chi mewn gwasanaeth Cymundeb o'r blaen pan redwyd allan o fara a gwin? Wel dyna ddigwyddodd dydd Sul er ein bod wedi paratoi ar gyfer 100! Ond llawenhau bod cymaint wedi ymuno â ni wnaethom, wrth fwrw ati i baratoi rhagor, tra trafododd Dr Tudur ystyr y Cymundeb gyda'r gynulleidfa.

Lluniaeth a Lluniau

Wedi'r oedfa gwahoddwyd pawb i'r neuadd i fwynhau paned a lluniaeth ysgafn. Hyfryd oedd gweld y neuadd yn llawn a gwrando ar fwrwm y cymdeithasu. Roedd arddangosfa o greiriau'r capel wedi eu rhoi yng nghyntedd y neuadd yn cynnwys ffolderi o luniau o weithgareddau'r eglwys dros y blynyddoedd. Yn ystod y cymdeithasu roedd lluniau PowerPoint o gyfnod ein gweinidog, y Parchg Rosan Saunders, yn cael eu dangos ar y sgrin. Y cyfan yn pwysleisio "koinonia" yr eglwys.

Cymanfa

Erbyn 2.30 roedd nifer dda eto yn y capel i Gymanfa Ganu dan arweiniad arbennig o hwylus Mr Iwan Guy gyda Mrs Elizabeth Jones, un o organyddion y capel, yn cyfeilio ar yr organ. I roi seibiant i'r arweinydd a'r cantorion

cafwyd unawdau hyfryd gan ddau o bobl ifanc yr eglwys, Anwen Angharad Dixon a Lewis Murray, cyfraniadau gwerthfawr i'r Gymanfa. Hefyd bu Tom Price yn rhoi crynodeb o hanes yr eglwys. Roedd yn wasanaeth o ganu mawl i'w gofio a chyfle arall wedi'r Gymanfa i gymdeithasu dros baned yn y neuadd. Diolch i bawb a gefnogodd ac a weithiodd mewn unrhyw fodd i sicrhau llwyddiant ein dathlu fel eglwys.

Yn y gwasanaethau bendithiol cawsom gyfle i ddiolch i Dduw am ei eglwys, ei thystiolaeth, a'i weithwyr diwyd ar hyd y ganrif a aeth heibio, a gweddiwn fel eglwys ar i Dduw roi ei arweiniad i ninnau wrth i ni gamu ymlaen i'r yfory.

"ond wrth fentro 'mlaen cei flasu
gwir anturiaeth, ac fe weli
fod yfory yn obaith gwiw."

(Peter M. Thomas)

Tom Price, Ysgrifennydd

Opera Porth Tywyn

yn cyflwyno Saint-Saens

Samson a Delilah

Neuadd Goffa Porth Tywyn

Hydref 19, 21, a 22 am 7pm

Tocynnau: 01554 835659